# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**By Teams**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 26 Tachwedd 2020**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad Cyhoeddi

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

### Cyfarfod Blynyddol

### 1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

### 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

### 3. ETHOL IS-GADEIRYDD CYNORTHWYOL

Ethol Is-gadeirydd Cynorthwyol y Cyngor am y flwyddyn sydd i ddod.

### 4. YMDDIHEURIADAU

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 5. DYRANIADAU, ETHOLIADAU AC APWYNTIADAU Y MAE GOFYN I'W GWNEUD YNG NGHYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.
(Tudalennau 1 - 48)

**Cyfarfod Busnes**

| 6. | **COFNODION** |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 24 Medi 2020 fel cofnod cywir.
(Tudalennau 49 - 72)

| 7. | **DATGANIADAU O DDIDDORDEB** |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr Agenda.

| 8. | **TROSGLWYDDIADAU REFENIW A CHYFALAF** |
|---|---|

Ystyried trosglwyddiadau sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor.

(Tudalennau 73 - 76)

| 9. | **ARGYMHELLION ODDI WRTH Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
|---|---|

Ystyried argymhellion oddi wrth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
(Tudalennau 77 - 154)

| 10. | **ADRODDIAD DIWEDDARU ODDI WRTH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU - ADOLYGIAD O'R POLISI TRWYDDEDU 2003** |
|---|---|

Ystyried cymeradwyo'r polisi Deddf Trwyddedu 2003 diwygiedig.
(Tudalennau 155 - 194)

| 11. | **RHYBUDD O GYNNIG - CEFNOGAETH AR GYFER Y SECTOR AMAETHYDDOL** |
|---|---|

Mae'r sector amaethyddol yn allweddol bwysig i'n heconomi, a chymunedau Powys fel y dynodwyd ar y map hwn. Gyda 9.5 miliwn o ddefaid yng Nghymru, rydym wedi gweld un o'r prif gynnyrch naturiol, gwlân, yn cael prisiau eithriadol o isel yn ystod y cyfnod diweddar yma.
Mae gennym ganolfannau graddio gwlân yn Y Drenewydd ac Aberhonddu, ac mae'r sector defaid yn eithriadol o bwysig ym Mhowys. Mae gwlân hefyd yn gynnyrch naturiol, sy'n wrthdan ac yn ecogyfeillgar.

O ystyried hyn, mae'r Cyngor yn cynnig y dylai'r awdurdod, fel rhan o fargen Tyfu Canolbarth Cymru, edrych ar gyfleoedd i ychwanegu gwerth at ein cynnyrch amaethyddol ac i weithio'n benodol gyda'r undebau ffermio a Bwrdd Marchnata Gwlân Prydain er mwyn hwyluso sefydlu corff sy'n debyg i WRONZ (Wool Research Organisation New Zealand) yng nghanolbarth Cymru gan fod yn gatalydd felly ar gyfer syniadau, cynnyrch ac ymgyrchoedd masnachol dyfeisgar sy'n defnyddio gwlân.

Cynigydd: Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan
Eilydd: Cynghorydd Sir Bryn Davies

(Tudalennau 195 - 196)

| 12. | RHYBUDD O GYNNIG - CYFRAITH LUCY |
|---|---|

Mae'r cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer gresynus o gael ffermydd cathod a chŵn bach trydydd parti sydd â safonau lles isel, gan ddefnyddio "Cyfraith Lucy" (y cyflwynwyd deddf ar ei gyfer yn Lloegr ym mis Ebrill 2020) fel y sail ddeddfwriaethol ar gyfer y gwaharddiad. Ymhellach at hyn, mae'r Cyngor yn condemnio'r oedi diangen gan Lywodraeth Cymru wrth gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon ar les anifeiliaid sylfaenol a ddylai fod yn rhagofyniad i gymdeithas wâr.

Cynigydd: Cynghorydd Sir James Evans
Eilydd: Cynghorydd Sir Amanda Jenner

| 13. | RHYBUDD O GYNNIG - CAMPFEYDD YN YSTOD Y CYFNOD CLO |
|---|---|

Mae Cyngor Sir Powys yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud campfeydd yn hanfodol yn ystod unrhyw gyfnod cyfyngiadau symud a chyfnodau atal byr yn y dyfodol.

Fel sector allweddol o fewn Economi Cymru, mae campfeydd yn cynnig cyfleoedd ac atebion iechyd meddwl/corfforol a llesiant hanfodol i gyfran fawr o boblogaeth Powys.

Yn ystod yr amseroedd heriol hyn, nid yw campfeydd erioed wedi bod mor bwysig i bob grŵp a demograffeg oedran. Mae perchnogion campfeydd yn llwyr barchu a deall y rhesymau dros Gyfnodau Atal Byr a Chyfnodau Cyfyngiadau Symud, ond mae cau ac ailagor campfeydd yn barhaus yn gosod straen cynyddol ar eu dichonolrwydd ariannol, swyddi, ac yn bwysicaf oll, y cyhoedd sy'n dibynnu ar gampfeydd am ystod eang o resymau, boed yn gorfforol ac iechyd meddwl.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailddosbarthu campfeydd fel 'Gwasanaeth Hanfodol', gan ganiatáu i'n campfeydd barhau i weithredu trwy gyfnodau cyfyngiadau symud yn y dyfodol, er budd iechyd meddwl a chorfforol y cyhoedd.

Cynigydd: Cynghorydd Sir James Evans
Eilydd: Cynghorydd Sir Karl Lewis

Mae Cyngor Sir Powys yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud campfeydd yn hanfodol yn ystod unrhyw gyfnod cyfyngiadau symud a chyfnodau atal byr yn y dyfodol.

Fel sector allweddol o fewn Economi Cymru, mae campfeydd yn cynnig cyfleoedd ac atebion iechyd meddwl/corfforol a llesiant hanfodol i gyfran fawr o boblogaeth Powys.

Yn ystod yr amseroedd heriol hyn, nid yw campfeydd erioed wedi bod mor bwysig i bob grŵp a demograffeg oedran. Mae perchnogion campfeydd yn llwyr barchu a deall y rhesymau dros Gyfnodau Atal Byr a Chyfnodau Cyfyngiadau Symud, ond mae cau ac ailagor campfeydd yn barhaus yn gosod straen cynyddol ar eu dichonolrwydd ariannol, swyddi, ac yn bwysicaf oll, y cyhoedd sy'n dibynnu ar gampfeydd am ystod eang o resymau, boed yn gorfforol ac iechyd meddwl.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailddosbarthu campfeydd fel 'Gwasanaeth Hanfodol', gan ganiatáu i'n campfeydd barhau i weithredu trwy gyfnodau cyfyngiadau symud yn y dyfodol, er budd iechyd meddwl a chorfforol y cyhoedd.

Cynigydd: Cynghorydd Sir James Evans
Eilydd: Cynghorydd Sir Karl Lewis

| 14. | RHYBUDD O GYNNIG - I GOFLEIDIO A CHYTUNO AR Y SIARTER TROSEDDAU CASINEB GAN GYMORTH I DDIODDEFWYR |
|---|---|

Mae'r Cyngor i nodi ar gyfer y Cynnig:-

1. Mae Troseddau Casineb yn broses gyfreithiol ac yn weithred droseddol sy'n cael ei thrafod gan y system Gyfiawnder yn rheolaidd. Mae Heddlu Dyfed Powys yn cytuno i ddelio gyda Throseddau Casineb lle bynnag y byddant yn digwydd.
2. Mae rhan gan awdurdodau lleol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â Throseddau Casineb.
3. Mae hyfforddiant wedi cael ei ddatblygu gan Gymorth i Ddioddefwyr led led Cymru trwy gydol y flwyddyn hon ac fe fyddant yn parhau i wneud hynny.
4. Mae arbenigedd gan C S Powys o ran troseddau casineb ac mae cydnabyddiaeth i'r ffaith nad yw cymunedau gwledig yng Nghymru yn imiwn i hyn.

Gofynnir i'r Cyngor gefnogi:-

1. Y prif flaenoriaethau sydd o fewn y Siarter Troseddau Casineb.
2. Yr angen i godi ymwybyddiaeth am Droseddau Casineb drwy'r arweinwyr addysg, arweinwyr gofal cymdeithasol ac Aelodau.
3. Ysgolion i ystyried mabwysiadu ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb o fewn y cwricwlwm lle bo hynny'n briodol.
4. Darparu hyfforddiant i'r holl Aelodau a staff er mwyn deall yr angen i godi ymwybyddiaeth ymhellach am droseddau sy'n cynnwys Troseddau Casineb

a'r effaith ar gymunedau gwledig ym Mhowys. Mae Cymorth i Ddioddefwyr eisoes yn cyflwyno hyfforddiant pwrpasol y gellir cael mynediad ato am ddim.

Mae'r Cyngor hwn felly yn penderfynu:-

1. Cytuno fod CS Powys yn derbyn y Siarter Troseddau Casineb gan Gymorth i Ddioddefwyr sy'n cynnwys help a chefnogaeth i ddioddefwyr a chymunedau.

Cynigydd: Cynghorydd Sir Jackie Charlton
Eilydd: Cynghorydd Sir William Powell
(Tudalennau 197 - 198)